Cofnodion Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, 22 Ebrill, 2009 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Y Dirprwy Faer Charlotte Leadbeater, Y Cyng Colin Jenkins, Y Cyng Ros Bellamy, Y Cyng Chris Parish, Y Cyng Ieuan Gwyn, Y Cyng Dawn Wallace, Y Cyng Fran Murphy, Y Cyng Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Y Cyng Richard Wallace, Y Cyng Hugh Towns,

Cyn y cyfarfod cafodd y Cyngor anerchiad gan Uchel Siryf Dyfed, Mrs Claire Mansel Lewis a fynegodd ei diolch am yr holl gefnogaeth yr oedd wedi'i derbyn gan y Cyngor a'i Aelodau yn ystod ei blwyddyn yn y swydd.

Materion yr Heddlu. Dywedodd PC Vernon Thomas bod un drosedd wedi'i chofnodi yn ystod y mis sef difrod troseddol i gerbyd. Dywedodd bod yr Heddlu wedi bod yn rhoi blaenoriaeth i gynnal patrôl ym mharc Penlan ar benwythnosau. Mewn ymateb i gwestiynau dywedodd PC Thomas nad oes hawl gan breswylwyr barcio y tu allan i'w cartrefi yn Heol Newydd. Gellir tynnu bolardiau a roddir i gadw lle oddi yno. Mae parcio ar linellau melyn dwbl yn fater i Swyddogion Parcio CSC, ond mae unrhyw fath o rwystro a welir gan Swyddog yr Heddlu yn drosedd.

Cof 16 /Ebrill /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones bod y cae chwarae pob tywydd yn Ysgol Tre-gib wedi denu mwy o ddefnyddwyr dros y 15 wythnos diwethaf na chyfleuster tebyg yn Llanelli a Rhydaman. Hoffai ddiolch i staff gweinyddol yr ysgol am ymgymryd â'r gwaith o drefnu'r holl archebion am y defnydd o'r cae chwarae pob tywydd fel rhan o'u gwaith pob dydd.

Cof 17 / Ebrill/ 09 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Mawrth 25ain, 2008 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Ebrill 8fed, 2008 fel cofnod cywir ac fe'u hargymhellwyd i'w derbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Ebrill 8fed, 2009 fel cofnod cywir ac fe'u hargymhellwyd i'w derbyn wedi cynnwys y newid canlynol;
Cof 13/ Ebrill / 09. Anfonebau i'w talu. Cariwyd y balans ymlaen ac fe ddylai ddarllen

£ 39, 588.86 ac nid £ 39, 58.86. Cynigiwyd gan Y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan Y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 18 / Ebrill / 09 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parth. Cof 300 / Mawrth / 09**.** Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd yn ardal Dinefwr. Cytunwyd y byddai'r Cyng Roy Davies a'r Maer yn anfon sylwadau at y Clerc a fyddai'n drafftio llythyr fydd yn cael ei ddosbarthu i bob aelod er mwyn anfon ymateb y mae pawb yn cytuno arno.

Cof 19/ Ebrill / 09 Gohebiaeth sydd angen ei ateb

1. Cynllun Ailgylchu Newydd ar Ymyl Ffordd CSC – gwahoddiad i fynychu cyfarfod yn Neuadd y Sir ar Fai'r 1af. Cytunwyd y byddai'r Cyng Chris Parish yn mynychu ar ran y Cyngor.
2. Diwrnod y Lluoedd Arfog, Mehefin 22ain. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cefnogi unrhyw ddigwyddiad yn y Dref a drefnir gan gangen y Lleng Brydeinig Frenhinol.
3. Prosiect cymunedau di-garbon. Y Clerc i wneud copïau i aelodau i hysbysu Rhiannon Rowley, Trefi Trawsnewid.
4. Coleg Prifysgol y Drindod – Gwahoddiad i gyflwyno enwau unigolion addas i dderbyn gwobr am eu gwasanaeth i'r gymuned. Cynigiodd y Cyng Roy Davies Mr Denys Smith am ei ymrwymiad oes i addysg trwy drefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o gyfoeth eu hamgylchedd lleol. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Rhoddir yr wybodaeth hon i'r Coleg.

Cof 20 / Ebrill / 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Diolchodd y Cyng Richard Wallace i'r Cyngor am gynnig dau fis o absenoldeb iddo oherwydd problemau parhaol gyda'i lygaid. Nodwyd.
2. Seminar Gweithredu Cymunedol er Newid Hinsawdd. Nodwyd.
3. LlCC – gwahoddiad i ymweld â'r Senedd. Y Dirprwy Faer i ymchwilio.
4. Eitemau Un Llais Cymru
   i) Dyfarniadau Cyflog Terfynol 2008-9. Nodwyd
   ii) Dewis unigolion i fynychu Garddwest Palas Buckingham. Ni ddewiswyd y Cyngor.
   iii) LlCC – cytuno i fynd i'r afael â thlodi ar y cyd. Nodwyd.
   iv) Nwy Calor - cystadleuaeth Pentref y Flwyddyn. Mae'r Cyng Fran Murphy a'r Cyng Ros Bellamy yn ystyried y cais.

Cof 21 / Ebrill /09 Materion Ariannol

1. Anfonebau i'w talu.
   Cyng Edward Thomas (cost y gwin ar gyfer derbyniad Gefeillio'r Dref) £ 59.06
   Cyng Charlotte (cost y lluniaeth ar gyfer derbyniad Gefeillio'r Dref) £ 48.80
   Cynigiwyd talu'r rhain gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill.
   i) Archwiliadau Ariannol Chwarterol.
   Adroddodd y Cyng Ros Bellamy bod saith taliad wedi'u harchwilio ac roedd pob un yn gywir. Roedd pob anfoneb wedi'u cofnodi'n gywir gyda'r rhifau siec yn dangos. Roedd y gyfriflen banc yn dangos mân gamgymeriadau gan y Banc sydd wedi'i hysbysu.

ii) Y Gofrestr Asedau.
Mae'r Swyddog Cyllid wedi cwrdd â'r Cyng Colin Jenkins, y Cyng Chris Parish a'r Swyddog Technegol. Mae'r holl newidiadau wedi'u trafod a bydd y Swyddog Cyllid yn diweddaru'r Gofrestr erbyn y cyfarfod nesaf.

3. Ffigurau'r Balans ar gyfer y flwyddyn yn diweddu (cyfrifon 2008-9)

Balans a gariwyd ymlaen (01.04.08)	£	63,971
Ychwanegu Derbynebion	£	75,415
Llai Taliadau a gwariant sydd wedi'i ymrwymo	£	99,827
Llai camgymeriadau Banc (sieciau: 1287 a 1313)	£	1
Llai siec (1019) 06/7 a dybier ei bod ar goll	£	100
Ychwanegu siec o 07/8 dinistriwyd	£	40
Balans a Gariwyd Ymlaen (31.3.2009)	**£**	**39,498**
Cynrychiolir y cronfeydd cronnus hyn gan:		
Balans Cyfrif y Trysorydd ar 31.03.09	£	4,979
Balans Busnes Heb Rybudd	£	37,147
Bond Llog Uchel	£	0
Llai sieciau 08/09 sydd heb eu cyflwyno	£	2,627
Cyfanswm y Balans	**£**	**39,498**

Cof 22 / Ebrill / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dosbarthodd y Swyddog Technegol adroddiad i'r Cyngor. Hefyd dangosodd Mr Davies ffotograffau yr oedd wedi'u tynnu o ddifrod i Bont y Brenin. Mae postyn ffôn BT sydd wedi'i osod ynghanol y palmant yn rhwystro llwybr y cerddwyr ac mae'r coed hefyd yn rhwystro'r golygfeydd dros y Cilgant. Cytunwyd y dylai'r Clerc anfon y rhain ymlaen at yr awdurdodau perthnasol am sylwadau a gweithredu.
Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol ofyn am ddyfynbrisiau er mwyn clirio'r coed o randiroedd y Cyngor yn Heol Cilgant. Gofynnodd y Cyng Roy Davies a allai Gwasanaethau Coed Llambed gael eu hystyried ar gyfer un dyfynbris.

Cof 23 /Ebrill / 09 Nid oedd Materion Cludiant na Phriffyrdd i'w trafod

Cof 24/Ebrill / 09 Arfarnu Staff 2008-9 Pwyntiau Gweithredu
Cytunwyd y byddai'r Maer yn cynnal cyfarfod grŵp gyda'r tri swyddog cyn gynted â phosibl

Cof 25 / Ebrill / 09 Adroddiad y Maer
Anfonodd y Cyng Edward Thomas adroddiad o'r digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Diolchodd y Maer i'r Dirprwy Faer y Cyng Charlotte Leadbeater a'r Cyng Chris Parish am drefnu'r derbyniad ar gyfer ymwelwyr y Gefeillio Tref o Le Conquet. Hefyd diolchodd i'r Swyddog Technegol am ei waith yn gosod yr holl luniau a phaentiadau yn y Siambr. Bydd y Maer yn cysylltu â Mr Gerwyn Thomas rheolwr cynorthwyol parciau CSC mewn perthynas â mynediad yr anabl i Barc Penlan. Bydd y Cyng Thomas, yn ogystal â'r Cyng Julia Jones yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r

Clwb Garddio a'r Siambr Fasnach ddydd Mercher, Mai 6ed mewn perthynas â'r prosiect Llandeilo yn ei Blodau.
Bydd y Cyng Colin Jenkins yn mynd yn gwmni i'r Maer yn nerbyniad CSC i Feiri Tref ar Fai'r 5ed, a'r Cyng Charlotte Leadbeater yn mynd yn gwmni i'r Maer i'r Gyngerdd Gala yn Rhydaman ar Fai'r 9fed.
Estynnodd y Maer wahoddiad i'r holl Gynghorwyr a'u teuluoedd i'w Wasanaeth Diolchgarwch Dinesig yng Nghapel Ebeneser ddydd Sul, Mai'r 24ain am 2.30pm, gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn. Ceir casgliad ar y cyd i Tenovus ac ARC yn ystod y Gwasanaeth.

Cof 26/ Ebrill / 09 Adroddiadau Eraill

i) Cyfarfod gydag Anne Hobbs, Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd.
Adroddodd y Cyng Roy Davies ar gyfarfod a fynychodd ef a'r Maer.
Roedd y Cyng Davies wedi cyflwyno dau gais i'r Prosiect i'w hystyried.
a) Gardd natur yn y rhandir yn Heol Cilgant.
b) Taflen Llwybr y Dref.

ii) Is-grŵp Digwyddiadau Haf Parc Penlan.
Rhoddodd y Dirprwy Faer adroddiad cynnydd ar gyfer digwyddiad cyntaf yr haf, sef 'Revels in the Park'.

iii) Dywedodd y Cyng Fran Murphy ei bod ar y cyd â'r Cyng Ros Bellamy am wneud cais yng nghystadleuaeth Pentref y Flwyddyn a noddir gan Nwy Calor.

Cof 27 / Ebrill / 09 Cadarnhad o'r Cyfarfod Blynyddol

Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid cynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn Siambr Neuadd y Sir am 6.45pm ddydd Gwener, Mai 29ain, 2009. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid cynnal y Cyfarfod Blynyddol a Ailddechreuir yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Mehefin 3ydd am 7pm. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 28 /Ebrill /09 Unrhyw eitemau o fusnes sydd ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag Adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Cytunwyd y dylid gwahodd Mr Huw Parsons, Rheolwr Twristiaeth CSC i annerch y Cyngor cyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ddydd Mercher, May 27ain am 7pm mewn perthynas â chynlluniau i hyrwyddo'r Dref yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm